

**POLISI AR ORUCHWYLIO
MYFYRWYR YMCHWIL**

Fersiwn	5.0
Dyddiad A Gymeradwywyd Gan Y Senedd / ASQC	Cymeradwywyd gyntaf: 31.10.2018 (Y Senedd) Fersiwn gyfredol: 23.05.2024 (Mân newidiadau) (ASQC)
Dyddiad Dod I Rym	01.08.2024
Perchennog Y Ddogfen	Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR)
Cysylltu	pgr@caerdydd.ac.uk
Rheoleiddio Rhiant	Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu Myfyrwyr
Dogfennau Cysylltiedig	Rheoliadau Gradd Ymchwil Polisi Ar Gyfrifoldebau Goruchwyliwr Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol

1.	Datganiadau Cyffredinol.....	1
2.	Meini Prawf ar gyfer Penodi Goruchwylwyr.....	1
3.	Goruchwyliaeth ar y Cyd	3
4.	Cyfarfodydd Goruchwyllo a Chysylltiadau Ffurfiol	3
5.	Hyfforddi, Mentora a Monitro Goruchwylwyr	4
6.	Newidiadau i Drefniadau Goruchwyllo	5
	Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côt Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.	7

1. Datganiadau Cyffredinol

1.1 Mae Pennaeth Ysgol yn gyfrifol am:

- .1 benodi staff fel goruchwylwyr i'r myfyrwyr ymchwil sydd wedi'u cofrestru yn ei Ysgol;
- .2 digonolrwydd parhaus y trefniadau goruchwyllo, gan gynnwys rhai o dan drefniadau cydweithredol;
- .3 sicrhau bod goruchwylwyr a benodir i fyfyrwyr yn eu Hysgol wedi derbyn hyfforddiant ac arweiniad digonol, gan gynnwys goruchwylwyr allanol;
- .4 mentora a monitro eu staff a benodir yn oruchwylwyr;
- .5 sefydlu trefniadau goruchwyllo newydd, pryd bynnag y bo'n ymarferol a chyda chyn lleied o oedi â phosibl, os cyfyd amgylchiadau lle mae angen newid dros dro neu barhaol.

1.2 Rhaid i bob myfyriwr ymchwil fod â thîm goruchwyllo creiddiol sy'n cynnwys o leiaf ddau oruchwyllydd academiaidd.

1.3 Rhaid dynodi o leiaf un o'r goruchwylwyr academiaidd yn brif oruchwylwr, a bod yn aelod o staff academiaidd Ysgol gartref y myfyriwr trwy contract cyflogaeth o 50% Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) o leiaf, ac sy'n cynnwys goruchwylloeth myfyrwyr ymchwil fel rhan o'u rôl: yn nodweddiadol, gradd darlithydd neu uwch yw hon, neu gyd-radd ymchwil neu uwch.

1.4 Gellir penodi goruchwylwyr ar y cyd a/neu ail oruchwylwyr o Ysgol arall.

1.5 Os oes gan fyfyriwr fwy nag un prif oruchwylwr (e.e. bod goruchwylloeth ar y cyd), bydd un o'r rhain yn cael ei nodi fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y myfyriwr a'r goruchwylwr hwnnw fydd yn arwain.

1.6 Yr arfer mewn rhai ysgolion yw cynnwys goruchwylwr bugeiliol neu fentor ar wahân yn y tîm goruchwyllo. Ym mhob achos, mae myfyrwyr yn elwa ar y gefnogaeth eang a'r cyngor a ddarperir gan y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig.

2. Meini Prawf ar gyfer Penodi Goruchwylwyr

2.1 I gael ei benodi'n aelod o dîm goruchwyllo, dylai goruchwyllydd:

- .1 feddu ar radd doethuriaeth neu fod wedi cael profiad ymchwil a/neu broffesiynol cymharol;

- .2 bod â dealltwriaeth briodol o'r prosiect arfaethedig i allu gwneud cyfraniad cadarnhaol iddo.
- 2.2 Dylai o leiaf un aelod o'r tîm goruchwylio, sef prif oruchwylydd fel rheol, fod:
 - .1 wrthi'n gwneud ymchwil o safon yn y ddisgyblaeth.
 - .2 wedi cefnogi o leiaf un myfyriwr doethurol nes iddo gwblhau'n llwyddiannus.
- 2.3 Gellir penodi aelod o staff nad yw wedi bod yn rhan o dîm goruchwylio o'r blaen ac sydd wedi cefnogi o leiaf un myfyriwr doethurol i gwblhau'n llwyddiannus yn brif oruchwyliwr ond mae'n rhaid iddo gyd-oruchwylio gyda chydweithiwr profiadol. Mae'n fwy arferol i oruchwylywyr newydd gynorthwyo staff profiadol gyda'u dyletswyddau goruchwylio fel rhan o'u hyfforddiant.
- 2.4 Gellir penodi goruchwylywyr allanol o brifysgol neu sefydliad arall i'r tîm goruchwylio. Bydd y rhain yn ychwanegol at y lleiafswm o ddau aelod o staff academaidd o'r Brifysgol, oni bai bod y rheolir y trefniadau goruchwylio o fewn partneriaeth gydweithredol ffurfiol. (Gweler adran 3 isod.)
- 2.5 Yn ogystal, gellir penodi ymchwilwyr ôl-ddoethuriaeth (yn nodweddiadol, cymdeithion ymchwil nad yw eu rôl yn gymesur â'u penodiad yn oruchwyliwr academaidd craidd) i'r tîm goruchwylio fel goruchwylywyr cynorthwyol.
- 2.6 Yn achos myfyrwyr EngD, dylid penodi o leiaf un goruchwylydd diwydiannol, sy'n cael ei gyflogi gan sefydliad diwydiannol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ymchwil.
- 2.7 Yn achos myfyrwyr MD, dylid penodi o leiaf un goruchwylydd clinigol.
- 2.8 Wrth benodi goruchwylywyr, dylai Pennaeth yr Ysgol sicrhau bod ganddo ddigon o amser ar gyfer goruchwylio safon briodol, a'i weithgareddau gweinyddol a datblygu cysylltiedig, yn unol â'r model llwyth gwaith cymwys. Dylai'r goruchwyliwr fod â digon o amser ar gyfer cyswllt digonol gyda phob myfyriwr ymchwil.
- 2.9 Fel canllaw, ni ddylai aelod unigol o staff fel arfer, ar unrhyw adeg, fod yn goruchwylio mwy na 6 myfyriwr fel prif oruchwylydd (neu gyd-brif oruchwylydd); cydnabyddir, fodd bynnag, y gall fod gan rai goruchwylywyr y gallu i oruchwylio niferoedd uwch o fyfyrwyr yn effeithiol, yn dibynnu ar eu hymrwymadau unigol a natur yr amgylchedd ymchwil y cefnogir y myfyriwr ynddo.
- 2.10 Rhaid i bob goruchwylydd feddu ar ddealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau, a rennir hefyd gan y myfyriwr. Ym mhob achos, rhaid i'r prif bwynt cysylltu fod yn glir i'r myfyriwr, ynghyd â chyswllt arall os nad yw'r prif oruchwylydd ar gael.

3. Goruchwyliaeth ar y Cyd

- 3.1 Gellir cofrestru myfyrwyr ymchwil ar gyfer gradd gan Brifysgol Caerdydd o dan drefniant partneriaeth gydweithredol, pan fydd cyd-oruchwyllo gyda Phrifysgol neu sefydliad ymchwil arall yn nodwedd o'r cytundeb partneriaeth. Gall partneriaeth hyfforddi doethurol neu ganolfan ar gyfer hyfforddiant doethurol fod yn enghraifft. Yn yr achosion hyn, gellir penodi goruchwyllydd academaidd o'r sefydliad partner, ac nid oes gofyniad safonol i o leiaf ddau aelod o staff academaidd o Brifysgol Caerdydd fod yn rhan o'r tîm goruchwyllo os nad ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ar gyfer yr amgylchiadau.
- 3.2 Yn rhan o'r broses dderbyn, fodd bynnag, bydd yn ofynnol i Gyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu Diwtor Derbyniadau Ôl-raddedig yr Ysgol ystyried trefniadau goruchwyllo newydd y gellid eu rhoi ar waith pe bai prif oruchwylwr Caerdydd a neu gyfranwyr allweddol eraill i'r goruchwyllo yn gadael y Brifysgol neu'n methu â pharhau yn eu rôl. Gall hynny olygu enwi goruchwyllydd i gymryd lle'r prif oruchwyllydd ond ni fydd y goruchwyllydd hwnnw'n chwarae unrhyw rôl o ran goruchwyllo'r myfyriwr oni chyfyd amgylchiadau annisgwyl.
- 3.3 Mae Pennaeth yr Ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod pob prosiect gradd ymchwil cydweithredol yn cael ei gefnogi a'i ddogfennu'n briodol trwy gwblhau Ffurflen Goruchwyllo Cydweithredol neu Gytundeb Ysgoloriaethau Ymchwil Unigol, fel y bo'n briodol.
- 3.4 Mae angen ffurflen goruchwyllo gydweithredol ar gyfer pob myfyriwr sydd â chyd-oruchwylwr sy'n allanol i'r Brifysgol, pan fydd y cyd-oruchwyllo hwnnw'n bwysig i'r prosiect a byddai ei ddileu yn cael effaith negyddol sylweddol ar ddichonoldeb y prosiect neu ar brofiad y myfyriwr. Gall y cyd-Oruchwylwr fod o Brifysgol arall neu sefydliad ymchwil, busnes neu broffesiynol, neu fod yn unrhyw unigolyn a benodir yn oruchwylwr allanol. Gall y goruchwyllo cydweithredol bara am y cyfnod llawn ar gyfer y rhaglen ymchwil neu gamau ar wahân, gan gynnwys cyfnodau o astudio yn seiliedig ar safle y cyd-oruchwylwr.
- 3.5 Mae'n ofynnol cael Cytundeb Ysgoloriaethau Ymchwil Unigol ar gyfer pob myfyriwr sydd wedi'i gofrestru o dan gytundeb darpariaeth gydweithredol ffurfiol sy'n arwain at ddyfarniad ar y cyd ar safle dwbl neu ar wahân.

4. Cyfarfodydd Goruchwyllo a Chysylltiadau Ffurfiol

- 4.1 Ystyrir cyfarfod goruchwyllo i fod yn rhyngweithiad ffurfiol, strwythuredig, y neilltuir digon o amser a sylw iddo. Dylai'r myfyriwr a'r goruchwylwr/goruchwylwyr fod yn glir eu meddwl ynghylch diben y cyfarfodydd a dogfennu a chytuno ar gofnodion o'r canlyniadau.
- 4.2 Dylid cytuno ar y cychwyn ar amllder a fformat disgwylidig y cyfarfodydd â'r prif oruchwylwr/oruchwylwyr ac â'r aelod(au) o'r tîm goruchwyllo ehangach, ac addasu eu hamlder a'u fformat, fel y bo'n briodol, wrth i'r prosiect fynd

rhagddo. Mae'r Brifysgol yn disgwyl:

- .1 y bydd y myfyriwr yn cwrdd â'i brif oruchwyliwr/goruchwylwyr ar ddechrau ei raglen;
 - .2 bydd y myfyriwr a'i dîm goruchwylwio wedyn yn cyfarfod yn unol ag amllder cytunedig o gyfarfodydd ffurfiol
 - .3 er y gall yr amllder amrywio (e.e. rhwng disgyblaethau; ar wahanol gamau o'r prosiect ymchwil), dylid cynnal cyfarfodydd goruchwylwio o leiaf unwaith y mis, yn bersonol neu drwy fideo;
 - .4 bydd yr amserlen o gyfarfodydd goruchwylwio yn cael ei hintegreiddio â gofynion y Polisi a'r Weithdrefn ar Fonitro Myfyrrwyr Ymchwil;
 - .5 pan fydd myfyriwr yn dychwelyd o gyfnod gohirio astudiaethau, bydd y prif oruchwylwyr yn cwrdd â'r myfyriwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol (heb fod yn hwyrach nag wythnos ar ôl dychwelyd) i drafod dychwelyd i astudio, gan gynnwys opsiynau ar gyfer dychwelyd yn raddol, unrhyw addasiadau dros dro neu barhaol sydd angen i gefnogi'r myfyriwr, ac addasu'r Cynllun Ymchwil.
- 4.3 Mae'r disgwyliadau hyn yn berthnasol i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, ac i'r rhai sy'n ymgymryd â chyfnod (au) ymchwil i ffwrdd o Gaerdydd.
- 4.4 Pan fydd y myfyriwr neu'r goruchwyliwr yn gweithio i ffwrdd o'r Brifysgol am gyfnod, gall fod ambell amgylchiad pan nad yw cyfarfodydd fideo yn ymarferol. Mewn achosion o'r fath, dylid cytuno ar restr o gysylltiadau ffurfiol: fel rheol, dylai fod yn ofynnol i'r myfyriwr gyflwyno adroddiad i'w oruchwyliwr o leiaf unwaith y mis, a dylai'r goruchwyliwr ymateb gydag adborth o fewn amser cytunedig.
- 4.5 Gall rhai myfyrrwyr ddod i gysylltiad ag un neu fwy o'u goruchwylwyr yn aml, neu gydweithio â nhw. Mae'r rhyngweithiadau hyn yn ychwanegol at yr amserlen cyfarfodydd ffurfiol: nid ydynt yn disodli'r gofyniad i gynnal cyfarfod ffurfiol o leiaf unwaith y mis; ac nid yw'n ofynnol o dan y polisi hwn bod cofnod ysgrifenedig o ryngweithiadau ychwanegol yn cael ei gadw.
- 4.6 Mae'n ofyniad bod y myfyriwr yn cyflwyno cofnod o ddyddiadau goruchwylwio fel rhan o bob digwyddiad monitro o dan y Polisi a'r Weithdrefn ar Fonitro Myfyrrwyr Ymchwil.
- 5. Hyfforddi, Mentora a Monitro Goruchwylwyr**
- 5.1 Mae Pennaeth Ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod pob goruchwyliwr a neilltuir i fyfyrwyr ymchwil yn ei Ysgol wedi derbyn hyfforddiant priodol.
- 5.2 Yn benodol, mae'r Brifysgol yn mynnu bod goruchwylwyr wedi derbyn hyfforddiant mewn sgiliau goruchwylwio ymchwil a rheoliadau a pholisïau perthnasol y Brifysgol cyn iddynt gael eu penodi i'w swyddi.

- 5.3 Dylai goruchwyliwr dibrofiad gael ei chynorthwyo gan gydweithiwr profiadol yn y tîm goruchwyllo a fydd yn ymgymryd â rôl mentor.
- 5.4 Mae Pennaeth Ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod perfformiad goruchwylwyr yn cael ei fonitro drwy fecanweithiau arfarnu staff ac adborth rheolaidd (e.e. gan fyfyrwyr ac arholwyr), ac y cymerir camau priodol pan fydd eu hangen.
- 5.5 Mae'n rhaid rhoi cyfleoedd rheolaidd i fyfyrwyr ymchwil wneud sylwadau ar eu trefniadau goruchwyllo: bydd hyn fel arfer yn cyd-daro â'u digwyddiadau monitro cynnydd ond byddant yn cael eu rheoli ar wahân, fel y gellir rhoi'r sylwadau yn gyfrinachol.
- 5.6 Rhaid gwneud y ffordd o drafod y posibilrwydd o newid y trefniadau goruchwyllo yn glir i'r myfyrwyr a'r goruchwylwyr.

6. Newidiadau i Drefniadau Goruchwyllo

- 6.1 Gall amgylchiadau godi sy'n gofyn am newid dros dro neu barhaol i drefniadau goruchwyllo. Mae Pennaeth Ysgol yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir trefniadau amgen ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau'r aflonyddwch i'r myfyriwr.
- 6.2 Pan fydd oedi wrth wneud newidiadau i'r trefniadau goruchwyllo sy'n cael effaith andwyol ddifrifol ar gynnydd y myfyriwr na ellir ei lleddfu drwy addasiadau i'r Cynllun Ymchwil neu Gwblhau, gall y myfyriwr adrodd am yr aflonyddwch fel amgylchiadau arbennig neu trwy'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

Absenoldebau dros dro

- 6.3 Gellir darparu ar gyfer absenoldeb dros dro goruchwyllydd trwy'r cymorth a ddarperir gan y tîm goruchwyllo presennol, yn enwedig pan fydd y goruchwyllydd absennol yn gallu parhau i fod yn hygyrch. Disgwylir i oruchwylwyr sydd ar absenoldeb ymchwil/astudiaeth gadw eu rôl goruchwyllo ar gyfer eu cyfnod absenoldeb. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gellir penodi goruchwyllydd ychwanegol i gyflenwi yn ystod yr absenoldeb.

Newidiadau parhaol

- 6.4 Mae angen gwneud newidiadau parhaol i drefniadau goruchwyllo pan fydd prif oruchwylwyr (neu un sydd â rôl arbenigol) yn gadael neu'n mynd yn analluog, neu os yw'r berthynas rhwng y myfyriwr a'r goruchwylwyr wedi chwalu'n llwyr. Bydd angen gwneud penodiad(au) newydd neu wneud addasiadau i'r tîm fel y gellir ymdrin â'r holl rolau.
- 6.5 Os bydd y goruchwyllydd yn peidio â bod yn aelod o staff y Brifysgol, gall barhau i ddarparu canllawiau fel goruchwylwyr allanol. Pan mai dyma yw'r prif oruchwylwyr, aelod arall o staff academiaidd yng nghartref y myfyriwr rhaid i'r Ysgol fabwysiadu rôl prif oruchwylwyr neu brif oruchwyllydd ar y cyd, er mwyn sicrhau bod y cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwyllo a monitro o fewn yr ysgol.

- 6.6 Os nad yw goruchwylydd yn gallu parhau yn ei rôl, neu os yw'r berthynas rhwng y myfyriwr a'r goruchwyliwr wedi chwalu'n llwyr, dylai pennaeth ysgol ystyried dewisiadau ar gyfer trefniadau eraill. Gan fod y gyfatebiaeth rhwng y myfyriwr, y prosiect a'r tîm goruchwyllo yn cael ei phenderfynu ar sail unigol, a chan y gall fod cyfyngiadau ychwanegol o ran nawdd neu bartneriaeth, dylid ystyried pob achos yng ngoleuni ei amgylchiadau penodol.
- 6.7 Mewn rhai amgylchiadau, gellir nodi ateb tymor byr hyd nes y gellir cytuno ar drefniadau newydd parhaol.
- 6.8 Mewn rhai amgylchiadau bydd yn briodol i'r myfyriwr drosglwyddo i Ysgol arall.
- 6.9 Os nad yw'r arbenigedd angenrheidiol ar gael o fewn i'r Brifysgol, gellir caffael cymorth goruchwyllo allanol os yw hyn yn cynnig ateb ymarferol.
- 6.10 Pan fydd newid y cytunwyd arno i drefniadau goruchwyllo yn ei gwneud yn ofynnol i'r prosiect newid cyfeiriad yn sylweddol, gellir ailraddnodi'r cyfnod cofrestru; gellir addasu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gyda chymeradwyaeth y Deon Ôl-raddedig perthnasol yn y Coleg.
- 6.11 Mae Pennaeth Ysgol yn gyfrifol am gymryd pob cam rhesymol i benodi goruchwylwyr newydd pan fo angen. Ond o dan amgylchiadau eithafol, efallai na fydd modd dod o hyd i ateb digonol. Mewn achosion o'r fath, dylai'r Ysgol roi gwybodaeth ac arweiniad er mwyn i'r myfyriwr allu canfod cyfleoedd posibl i drosglwyddo os yw'n dymuno mynd ar drywydd ei bwnc/ei phwnc mewn prifysgol arall.
- 6.12 Lle nad yw ateb yn glir, dylai'r Ysgol ofyn am gyngor gan Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) i drafod opsiynau posibl.

Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côt Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côt Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

Disgwyliadau ar gyfer Safonau	Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a dros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono.
Arferion Craidd o ran Safonau	Arferion Craidd o ran Ansawdd
	Mae'r darparwr yn dylunio a/neu'n cyflwyno cyrsiau o safon uchel.
	Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel.
	Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn rhoi profiad academaidd o safon uchel.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau academaidd.
	Pan mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno'r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol.
	Pan mae darparwr yn cydweithio â sefydliadau eraill, mae wedi gosod trefniadau effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod y profiad academaidd o ansawdd uchel waeth ble neu ym mha

	fodd y cyflwynir cyrsiau, neu bwy sy'n eu cyflwyno.
	Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academiaidd ac yn broffesiynol.
Arferion cyffredin o ran Aafonau	Arferion cyffredin o ran Ansawdd
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau.	Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol.